



## Rhifyn 4 - Mawrth 2022

Annwyl Breswylydd,

Croeso cynnes i rifyn Gwanwyn ein cylchlythyr. Mae diwrnodau'n mynd yn hirach ac yn fwy golau ac mae ein tîm cynnal a chadw wedi bod allan yn gwneud ein tref a'n wardiau edrych cystal ag y gallant fod.

Gan fod cyfyngiadau'r pandemig yn dechrau llacio, rydym yn falch iawn o gyhoeddi bod ein digwyddiad Wartime Bridgend yn dychwelyd ar 16 Gorffennaf

2022, byddem wrth ein bodd pe byddai trigolion yn cymryd rhan neu'n dod draw i fwynhau'r digwyddiad cymunedol am ddim hwn yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr.

I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein tudalen Facebook Wartime Bridgend neu cysylltwch â'r tîm ar [carnegiehouse@bridgend.gov.uk](mailto:carnegiehouse@bridgend.gov.uk)

## Hwnt ac yma yn y Wardiau

Mae'r Tîm Cyfleusterau wedi bod yn gweithio'n galed iawn yn y wardiau yn ystod misoedd y gaeaf.



Cyn



Ar Ôl



Cyn



Ar Ôl

ar y tir o amgylch meinciau a byrddau picnic a thacluso ymylon y llwybr yng Nghaeau Newbridge a Newcastle Hill.

Mae'r gwaith a wnaed yn cynnwys clirio palmentydd a llwybrau, glanhau a thynnu graffiti a sticeri oddi ar feinciau a biniau yng Nghaeau Newbridge, glanhau a phlannu planhigion yn y pedwar lle plannu Croeso i'r Dref sydd gennym yn y manau mynediad allweddol i Ben-y-bont ar Ogwr, gwaith

Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr ond mae'n dangos yr hyn a wneir yn ein wardiau i wneud ein cymunedau'n ddeniadol ac yn bleserus i bawb.



Cyn



Ar Ôl



Cyn



Ar Ôl

# CASGLU STRAEON COVID

Llongyfarchiadau i'r Artist Claire Hiatt y mae ei gwaith wedi'i gynnwys yng nghasgliad straeon Casglu Covid ar-lein yn Yr Adran Hanes Cyhoeddus ac Archaeoleg yn Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan.

Cafodd y portread o'r nyrs Geraint Hume, o'r uned gofal dwys, ei baentio fel rhan o'n prosiect Who is Bridgend? Pwy yw Penybont? a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac a gynhelir gan Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr yn Nhŷ Carnegie

Fel rhan o'r prosiect hwn, derbyniodd yr Artist ac Arweinydd y Prosiect Claire Hiatt enwebiadau i greu portreadau o arwyr lleol yn y gymuned. Bu Geraint, sy'n gweithio yn Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr, yn gweithio'n ddiflino trwy gydol y cyfnod clo ond bu'n rhaid iddo hefyd ohirio ei briodas oherwydd Covid; roedd yn ymgeisydd perffaith i'w ddathlu fel rhan o'r prosiect, a gynhaliwyd pan oedd y cyfyngiadau symud ar eu llymaf. Rydym i gyd yn hynod falch ohonoch Claire, da iawn!



Claire yn cyflwyno'r portread i Mark Etheridge, Curadur Casglu Covid



## CYRSIAU AR-LEIN



Cyflwynodd Tŷ Carnegie gwrs Eidaleg sgwrsio ar-lein newydd ym mis Ionawr sydd wedi cael derbyniad da iawn. Mae'r cwrs Eidaleg yn ychwanegol at ein cyrsiau Ffrangeg a Sbaeneg ar-lein poblogaidd sydd wedi eu cynnal ers amser.

Bydd y cyrsiau Eidaleg, Ffrangeg a Sbaeneg nesaf yn dechrau ym mis Ebrill 2022 ac yn costio £70 am 10 wythnos.

Mae'r lleoedd yn gyfyngedig ar bob cwrs er mwyn rhoi sylw unigol i'r rhai sy'n cymryd rhan ac maen nhw'n llenwi'n gyflym iawn.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth neu os hoffech gofrestru ar gwrs, anfonwch e-bost at [carnegiehouse@bridgend.gov.uk](mailto:carnegiehouse@bridgend.gov.uk)

## PROSIECT COED CEIRIOS SAKURA



Mae Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr wedi cael saith Coeden Geirios fel rhan o'r Prosiect Coed Ceirios Sakura cenedlaethol.

Plannwyd pedair Coeden Geirios ym mis Rhagfyr yn; Ysgol

Brynteg, Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair, Ysgol Gynradd Penybont ac ar dir Tŷ'r Ardd, a fydd yn agor fel Neuadd y Dref newydd yn 2022.

Mae tua 6,500 o goed ceirios o Japan wedi cael eu rhoi i'r DU gan Japan, ac wedi'u plannu ledled y wlad mewn parciau, gerddi ac ysgolion i ddathlu perthynas Japan â'r DU. Bydd y prosiect yn nodi'r lleoliadau a sut mae'r coed yn blodeuo dros y blynyddoedd nesaf.

Hoffai Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr ddiolch i Brosiect Sakura a'i Gadeirydd Mr Keisaku Sano am roi'r saith coeden i dref Pen-y-bont ar Ogwr.



Coed Ceirios sydd newydd eu plannu Caeau Newbridge



# CYNLLUN PLAC GLAS



Fel rhan o gynllun y Plac Glas, mae Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr yn falch o gyhoeddi y bydd y cyn-drigolion canlynol o Ben-y-bont ar Ogwr yn cael eu coffáu gyda phlac glas.

## WARD YR HENGASTELL - DILWYN LEWIS

Ganwyd Dilwyn yn 1924 ac roedd yn byw yn y Cottage Homes ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Roedd yn ddylunydd ffasiwn a drodd yn Offeiriad Catholig a wnaeth oruchwylio'r gwaith o adfer Basilica Santa Maria Maggiore yn Rhufain. Y gobaith yw y bydd y plac yn cael ei osod ar Eglwys Gatholig y Santes Fair ar Heol Ewenni yn amodol ar ganiatâd cynllunio.

## WARD Y CASTELLNEWYDD - CAROLINE E. WILLIAMS

Ganwyd Caroline mewn tŷ ar Newcastle Hill yn 1823. Roedd hi'n ferch i'r llawfeddyg adnabyddus John Williams. Aeth ymlaen i ariannu'r Ysgoloriaeth Gyntaf i Fenywod a roddwyd erioed mewn Coleg Prifysgol yng Nghymru.

## WARD MORFA - JOHN THOMAS

Ganwyd John ar Ddydd Gŵyl Dewi 1826. Rhoddwyd y teitl 'Pencerdd Gwalia' iddo yn Eisteddfod Aberdâr yn 1861. Roedd yn hyrwyddwr brwd o Gerddoriaeth Gymreig a chefnogodd dros ddeugain o gyngherddau cerddoriaeth Gymreig blynyddol yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr. Aeth ymlaen i fod yn delynor y Frenhines Victoria a'i holynydd y Brenin Edward VII.

# ARDDANGOSFA CYMRU AC 80 MLYNEDD ERS BRWYDR PRYDAIN

Fis Gorffennaf, rydym yn falch iawn o gynnal yr arddangosfa deithiol wych hon sydd wedi'i churadu gan yr Awyrlu Brenhinol. Roedd Arddangosfa Cymru ac 80 mlynedd Ers Brwydr Prydain i fod i fynd ar daith o amgylch Cymru yn 2020 yn wreiddiol ond fe'i gohiriwyd gan y pandemig. Mae'r arddangosfa yn adrodd safbwynt Cymreig unigryw ar Frwydr Prydain ac yn cael ei harddangos yn y ddwy iaith.

Lleolir yr arddangosfa yn Nhŷ Carnegie a bydd yn rhan o'n digwyddiad Wartime Bridgend sydd eleni hefyd yn cynnwys copi maint go iawn o Hurricane a Spitfire ynghyd â threlar Amgueddfa Brwydr Prydain, ymhlith llawer o greiriau diddorol eraill!

Bydd yr arddangosfa yn agor ar 16 Gorffennaf fel rhan o Ddigwyddiad Wartime Bridgend a bydd ar agor i'r cyhoedd tan 21 Gorffennaf.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â [carnegiehouse@bridgend.gov.uk](mailto:carnegiehouse@bridgend.gov.uk).



# RHANDIROEDD

Nodwch fod y rhan fwyaf o safleoedd rhandiroedd bellach wedi'u meddiannu'n llawn ac mae unrhyw leiniau rhandiroedd gwag yn y broses o gael eu cynnig i'r bobl nesaf ar y rhestr aros. Os hoffech gofrestru ar gyfer llain rhandir gallwch anfon eich enw, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn at [btcallotments@bridgend.gov.uk](mailto:btcallotments@bridgend.gov.uk) ond dylech nodi bod tua thair blynedd o amser aros, cyn y pandemig, ar y rhestr aros am randir ond mae hyn yn amrywio, yn dibynnu ar ba bryd y bydd lleiniau ar gael.



# DIGWYDDIADAU MAER TREF PEN-Y-BONT AR OGWR

Cefnogodd Maer Tref Pen-y-bont ar Ogwr, y Cyng. Steven Bletsoe y digwyddiadau canlynol ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2021.

- 17 Tachwedd Dadorchuddio Diffibriliwr yn Ysgol Penybont
- 26 Tachwedd Ffilmio Troi'r Goleuadau Nadolig Ymlaen yng Nghanol Tref Pen-y-bont ar Ogwr
- 5 Rhagfyr Digwyddiad Bwydo'r Ceirw yn Y Bont
- 11 Rhagfyr Cyngerdd Nadolig Côr Bro Ogwr
- 16 Rhagfyr Plannu Coeden Geirios ar gyfer Prosiect Coeden Geirios Sakura yn y Neuadd y Dref newydd
- 12 Rhagfyr Bws Band Pres Nadolig
- 24 Rhagfyr Compassion Church, Gwasanaeth Noswyl Nadolig



# CYSYLLTWCH Â NI

Mae manylion y Cyngorwyr Tref i'w gweld ar ein gwefan [www.bridgendtowncouncil.gov.uk/contact-us](http://www.bridgendtowncouncil.gov.uk/contact-us)

## STAFF Y CYNGOR

Rheolir materion Cyngor y Dref gan Glerc Tref penodedig a gefnogir gan Ddirprwy Glerc Tref/Swyddog Cyllid Cyfrifol a thîm o reolwyr, gweinyddwyr a staff rhan-amser.

**Eich Clerc Tref yw  
Mrs Leanne Edwards**



[bridgend.tc@bridgend.gov.uk](mailto:bridgend.tc@bridgend.gov.uk)

Gallwch hefyd ysgrifennu atom yn:



**Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr  
Tŷ Carnegie,  
Stryd Wyndham,  
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 1EF**

## DWEUD EICH DWEUD

Mae'r Cyngor Tref wir eisiau i'r cylchlythyr hwn fod yn werthfawr i chi felly rhannwch eich adborth a'ch awgrymiadau i'n helpu i wella.

Os oes gennych bwnc neu brosiect yn eich cymuned yr hoffech i Gyngor y Dref gymryd rhan ynddo, cysylltwch â'n Rheolwr Ymgysylltu â'r Gymuned, Sharlene Lewis ar [Sharlene.lewis@bridgend.gov.uk](mailto:Sharlene.lewis@bridgend.gov.uk)

Gallwch hefyd gael y newyddion diweddaraf gan Gyngor y Dref a materion lleol ar ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol:

- Bridgend Town Council
- Carnegie House Arts Centre
- Carnegie House
- Carnegie House

Mae'r cylchlythyr hwn hefyd ar gael ar-lein yn Saesneg yn [www.bridgendtowncouncil.gov.uk](http://www.bridgendtowncouncil.gov.uk)